AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 219 Mehefin – Gorffennaf 2019

Synod Cymru

# Gwyliedydd



# Cyfarfod Synod Cymru, 30 Mawrth 2019

Cynhaliwyd y Synod eleni yng nghapel Seion, Llanrhaeadr ym Mochnant. Diolch am y croeso cynnes. Agorodd y cyfarfod gyda defosiwn o dan arweiniad y Parchedig Gwyndaf Richards, Arweinydd Ardal Llanrhaeadr. Canwyd emyn o fawl sef 'Cân f'enaid, cân, fy Arglwydd Dduw i ti'. Cyfieithwyd y geiriau gan y diweddar Barchedig E.H. Griffiths, a oedd â chysylltiad clòs â'r ardal hon.



Yn ei geiriau agoriadol cyfeiriodd y Cadeirydd, y Parchg Ddr Jennie Hurd, at nifer o weinidogion nad oeddent mewn iechyd digon da i allu bod yn bresennol, sef y Parchedigion Bryn Jones, Gwilym O. Jones, Patricia Grudgings a Martin Evans-Jones, gan ddymuno gwellhad buan iddynt hwy a hefyd i Wynn a Gwyneth Meredith.

**Pa thema?**

Da oedd deall fod rhai capeli ac Ardaloedd yn rhoi sylw i thema Bywyd Ysbrydol, yr ydym wedi dewis canolbwyntio arni yn 2018-19. Yn Ardal Glannau Meirion a Dyfi, er enghraifft, mae astudiaethau Beiblaidd yn cael eu cynnal a hefyd fe wahoddwyd Delyth Davies, ein Swyddog Datblygu, i drafod cynllun twf ar gyfer yr eglwysi yno. Yn Llanbedr Pont Steffan, mae rhai aelodau o Synod Cymru yn mynychu grŵp Astudiaeth Feiblaidd ecwmenaidd. Nid yw'n rhy hwyr chwaith i eraill ddechrau gweithio ar y thema – efallai gan ddefnyddio colofn Bywyd Ysbrydol y *Gwyliedydd* i ysgogi meddwl neu sbarduno trafodaeth.

Penderfynodd y Synod ddal ati â'r cynllun o ddilyn themâu o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2019-20 y thema fydd **Estyn Allan i'r Gymuned**. Wrth reswm, bydd gorgyffwrdd rhwng themâu a chyfle i ddal ymlaen gyda'r hyn a ddechreuwyd eisoes.

**Golwg newydd ar bethau**

Clywodd y Synod gan y rhai a'n cynrychiolodd yn ddiweddar mewn Symposiwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb, sef y Diacon Stephen Roe, y Parchg Ian Morris a Mrs Maryl Rees. Bu'r Symposiwm yn brofiad bythgofiadwy i'r tri. Roedd wedi peri iddynt sylweddoli o'r newydd pa mor freintiedig ydym ni, oherwydd clywsant am bethau na allwn ni eu dychmygu. Disgrifiodd Maryl ei chyfarfyddiad â gwraig o Dde Affrica a oedd wedi byw dan drefn apartheid. A hithau'n ferch ifanc, clywodd ddyn gwyn yn dweud wrth ei thaid anllythrennog, 'Put your cross there, you baboon'. Rhaid i ninnau sylweddoli fod hiliaeth yn bodoli, gwaetha'r modd, o fewn yr Eglwys ond bod yn rhaid inni gydweithio i geisio ei oresgyn er mwyn cyrraedd y man lle mae Duw am i ni fod.

**Un Synod yng Nghymru?**

Derbyniodd y Synod bapur yn cyflwyno cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r trafodaethau i ystyried y posibilrwydd o weithio tuag at greu un Synod newydd i'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru. Roedd ein trafodaethau â Wales Synod wedi dod i ben am y tro oherwydd y daeth yn amlwg fod angen edrych yn gyntaf ar sefyllfa ariannol Synod a Chylchdaith Cymru. Eglurwyd fod yr arian sydd gan Synod Cymru wrth gefn yn debygol o ddod i ben ymhen pum mlynedd os parheir i ariannu'r gwaith fel rydym yn gwneud yn awr. Yn wyneb hynny, ni waeth beth fydd yn digwydd o ran uno, mae angen meddwl yn ofalus. Cytunodd y Synod, drwy fwyafrif clir, y dylid derbyn cynnig y Pwyllgor Gwaith i ymweld â phob un o'n capeli cyn diwedd 2019 er mwyn ein helpu i feddwl sut rydym yn gweld ein gwaith a'n cenhadaeth, fel capeli unigol, ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Ar yr un pryd fe edrychir yn ofalus ar weinidogaeth pob gweinidog sy'n gwasanaethu yng Nghylchdaith Cymru. Erbyn 2020 bwriedir paratoi Cynllun Ariannol newydd, i'w gyflwyno i'r Synod ynghyd â chasgliadau'r archwiliad a amlinellir uchod.

**17 Adroddiad**

Cafwyd cyfanswm o 17 adroddiad ar wahanol feysydd fel y Rhwydwaith Dysgu, Gweithredu dros Blant, Eiddo, Diogelu ac yn y blaen, sydd yn cynrychioli ymrwymiad dwfn i wasanaethu Duw yn Synod Cymru.

*Ff.R.*

## Rhoddion

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y rhoddion caredig a ganlyn, a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Dienw | £40-00 |
| Dienw | £100-00 |
| **Cyfanswm** | £140-00 |



Os am gopi o *Adroddiad 2018/19 (Synod Cymru)* cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod.

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt,
Wrecsam, LL11 4FF
cwrteden@gmail.com

**SUT MAE GWEITHREDU DROS BLANT YN GWEITHIO**

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

| | |
|---|---|
| Ardal De Gwynedd | £400.00 |
| Mrs Sheila Ann Thomas, Llanelwy | £50.00 |
| Mrs Mair Rees, Llanelwy | £50.00 |
| Blwch Casglu – Plas Llwynog | £70.00 |
| "Mawl y Pasg", Ardal Glannau Maelor | £33.50 |
| MMM – Cyfri eich Bendithion | £35.60 |
| Capel Ebeneser, Eglwysbach | £25.00 |
| "Hen Focs Casglu" | £19.45 |

Anfonwyd cyfanswm o £683.55 yn enw Synod Cymru.

Gyda diolch am bob cyfraniad.
Marc a Margaret

Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 219**
**MEHEFIN – GORFFENNAF 2019**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
1 GORFFENNAF 2019

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr:
Pistyll Rhaeadr gan Andrew Chisholm

# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Beth ydych chi'n ei glywed o'ch cwmpas, wrth i chi ddarllen (neu wrando ar) eich copi o'r *Gwyliedydd* heddiw? Oes llawer o sŵn yn y cefndir – y teledu neu'r radio, anifeiliaid, sŵn traffig neu bobl yn siarad? Neu tybed ydych chi'n canolbwyntio ar y geiriau mewn distawrwydd? Mae distawrwydd yn beth digon prin ac anodd ei ganfod yn ein hoes ni. Yn union fel y mae mwy i heddwch nag absenoldeb rhyfel, mae mwy i ddistawrwydd nag absenoldeb sŵn, ond mae tawelwch yn gymorth mawr i ganfod dyfnder gwir ddistawrwydd.

Wrth i mi ysgrifennu'r darn hwn, dwi'n darllen llyfr sydd newydd gael ei gyhoeddi gan ffrind. Teitl y llyfr yw *Women Choosing Silence: Relationality and Transformation in Spiritual Practice* (Routledge, 2019). Mi wnes i gyfarfod yr awdur, Alison Woolley, tra roeddem ni'n astudio efo'n gilydd yn Birmingham. Roeddem yn rhannu'r un goruchwylydd astudiaethau, a hefyd yr un fethodoleg, neu safbwynt, ar gyfer ein gwaith, sef gwerthoedd diwinyddiaeth ymarferol ffeministaidd. Mae gwaith Alison yn ddiddorol oherwydd, fel rheol, mae ysgolheictod ffeministaidd yn pwysleisio'r ffordd y mae merched wedi cael eu distewi dros y canrifoedd, heb hawl i fynegi eu barn, a'u llais wedi'i ddwyn oddi arnynt. Does dim rhaid imi ddweud wrth bobl Cymraeg eu hiaith am y profiad yma: gwyddom yn iawn sut mae distewi a dwyn llais neu iaith yn gamddefnydd o bŵer ac yn ffurf ar ormes. Ond mae Alison wedi ysgrifennu am ferched yn *dewis* distawrwydd, yn hytrach na *gorfod* distewi, fel rhan o'u hymarferiad ysbrydol. Wrth iddynt ddewis distawrwydd yn eu bywydau gweddi, maen nhw wedi dod o hyd i berthynas ddyfnach â Duw. Yn hytrach na gwacter, mae'r distawrwydd wedi bod yn llawn agosrwydd Duw. Yn hytrach na bod distawrwydd yn fan lle na chlywir Duw yn siarad, maen nhw wedi cael hyd i Dduw yno, mewn cariad, yn aros i glywed oddi wrthynt. Mae pob un o brif grefyddau'r byd yn dysgu ymarfer distawrwydd fel ffordd o agosáu at Dduw, a hyd yn oed uno efo Duw, ac mae gwaith Alison yn cadarnhau gwerth a phositifrwydd ymarfer distawrwydd mewn byd mor swnllyd. Mae hi wedi gwneud i mi feddwl eto am sut rwyf yn gweddïo a cheisio Duw a'i ewyllys yn fy mywyd i.

Does dim modd gwybod sut y bydd bywyd gwleidyddol Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn o'r *Gwyliedydd*. Mae wythnos, neu hyd yn oed awr, yn amser hir mewn gwleidyddiaeth! Pan dwi'n meddwl yn ôl i'r golygfeydd yn San Steffan, a hyd yn oed yn y Senedd yng Nghaerdydd, dros y misoedd diwethaf, caf fy hun yn dyfalu tybed a fuasai pethau wedi bod yn wahanol petai ein gwleidyddion wedi cymryd amser i ddistewi yn hytrach na gweiddi ar ei gilydd. Dychmygwch! Hanner awr o'n gwleidyddion yn eistedd mewn distawrwydd yn ystod *Prime Minister's Question Time* yn hytrach nag yn cyfarth ar ei gilydd! Yn ôl 1 Brenhinoedd 19: 11-12, profodd y proffwyd Elias bresenoldeb Duw nid yn y gwynt nac yn y ddaeargryn ond mewn distawrwydd llethol, llwyr. Duw ei hunan a ŵyr fod arnom angen gwybod am ei bresenoldeb yn y distawrwydd rŵan.

Ac os yw hyn yn wir am ein bywyd fel cymdeithas, mae yr un mor wir am ein bywyd fel eglwysi. Mae pawb yn sôn beth yw'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol, pawb yn siarad am sut i wynebu'r dyfodol. Yn Synod/Cylchdaith Cymru, rydym yn dechrau proses o Archwilio er mwyn Cenhadu gyda'n capeli a'n gweinidogion, fel y gallwn gynllunio ar gyfer ein cenhadaeth yn y dyfodol ac ystyried beth yw'r defnydd gorau o'n hadnoddau, boed ddynol neu ariannol, yng ngwasanaeth Duw a'i deyrnas. Mae'n golygu llawer o siarad, llawer o sŵn – sŵn allanol, wrth i ni drafod a sgwrsio a hyd yn oed dadlau, yn ogystal â sŵn mewnol, wrth i ni feddwl a myfyrio a hyd yn oed pendroni am bethau sy'n allweddol i bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud. Ond yn hytrach na dim ond creu sŵn, efallai fod hwn yn gyfnod i geisio Duw yn y distawrwydd hefyd, fel Elias; i ddisgwyl wrtho a phrofi ei bresenoldeb. Dwi'n credu'n gryf nad yw gweddïo yn mynd i newid Duw. Nid oes ar Dduw angen newid. Ond mae gweddïo yn caniatáu i Dduw ein newid ni. Yn y distawrwydd, boed i ni glywed llais cariadus Duw, ac ufuddhau.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Eisoes ym mlynyddoedd cynnar y ganrif hon rydym wedi dathlu sawl dyddiad arwyddocaol yn ein hanes fel cenedl. Yn 2017 fe fuom yn nodi tri chan mlwyddiant geni William Williams, emynydd mwyaf Cymru. Nid yn unig bod ei emynau yn parhau i fod yn foddion gras i'r genedl, ond bu hefyd yn gyfrifol fel bardd rhamantus cyntaf Cymru am osod seiliau cadarn i'r beirdd a'r llenorion a'i dilynodd, Mae trosiadau o'r emyn *Arglwydd, arwain drwy'r anialwch* (emyn 702 yn *Caneuon Ffydd)* yn cael eu canu mewn sawl iaith ar draws y byd.

Yn ystod 2017 fe fuom hefyd yn dathlu 450 mlynedd ers cyhoeddi'r Testament Newydd cyntaf yn Gymraeg yn 1567. William Salesbury (1520-1584) gyda chymorth yr Esgob Richard Davies a Thomas Huet fu'n gyfrifol am y gwaith a awdurdodwyd gan ddeddf seneddol yn 1563. Roedd pedair blynedd yn gyfnod rhy fyr mewn gwirionedd ar gyfer y gwaith, ond mae ysgolheigion erbyn hyn yn cytuno bod y cyfieithiad yn un gwych iawn. Yn anffodus roedd gan Salesbury syniadau unigryw ynglŷn ag orgraff ac roedd y gwaith yn cynnwys geiriau wedi'u Lladineiddio i'r fath raddau nes bod talpiau yn annealladwy i'r sawl a'u darllenai. Nid oedd chwaith yn gyson gyda sillafiad rhai geiriau ac roedd yn mynnu bod rhaid adlewyrchu dylanwad yr Hebraeg ar y Gymraeg hefyd. Nid oedd yn fodlon ychwaith i ddefnyddio'r treigliadau, yn enwedig felly'r treigliad trwynol! Efallai mai'r ystyfnigrwydd hwn o du Salesbury a fu'n gyfrifol am ei anallu ef a Richard Davies i gyfieithu'r Hen Destament yn ôl gofynion Deddf 1563. Digon efallai yw nodi beirniadaeth John Penri pan ddywedodd nad oedd ond un ymhlith deg yn yr eglwysi yn deall yr hyn a glywyd ganddynt. Roedd hynny yn wir am y Lladin a'r Saesneg a glywyd o Sul i Sul hefyd.

Fe ddywedir bod sawl dyn mawr wedi sefyll ar ysgwyddau dynion mawr eraill i gyflawni eu gwaith. Mae hynny'n wir yn hanes William Morgan (1541-1604) wrth iddo weddnewid Testament Newydd Salesbury. Aeth William Morgan i Goleg Sant Ioan Caergrawnt yn 1565 ac erbyn 1575 roedd wedi derbyn pedair gradd yno. Derbyniodd urddau offeiriad yn 1568 a bu yn Llanbadarn a'r Trallwm cyn symud i Lanrhaeadr-ym-Mochnant yn 1578. Yno llwyddodd, er yr helyntion a gafodd, i gwblhau ei gyfieithiad o'r Hen Destament a'i ddiweddariad o'r Testament Newydd gan sicrhau bod y Beibl cyfan yn dod o'r wasg yn 1588. Nid oedd y Beibl hwn heb ei feiau fel y sylweddolodd yr Esgob Morgan gan y bu wrthi yn cywiro ei waith ei hun ond oherwydd i lawysgrif y Testament Newydd fynd ar goll yn Llundain yn 1559, ni fu'n bosib iddo gwblhau ei dasg. Bu'n rhaid disgwyl tan 1620 i rywun arall gwblhau'r gwaith. Y gŵr a ddaeth i'r adwy oedd Dr John Davies Mallwyd (1567-1644), y disgleiriaf o ysgolheigion ei gyfnod. Bu'n cydweithio gyda'r Esgob Morgan yn Llandaf ac yn 1604 fe'i penodwyd yn rheithor Mallwyd ychydig cyn i'r Esgob farw.

Rhannu eiddo William Morgan sydd yn digwydd ym mhennod agoriadol nofel hanesyddol Gwynn ap Gwilym, '***Sgythia'.*** O'r dechrau rydym yng nghanol tensiynau eglwysig wrth i John Davies, er na wyddai hynny ar y pryd, wynebu 40 mlynedd fel rheithor Mallwyd yn Esgobaeth Llanelwy. Mae'r nofel yn rhoi darlun byw iawn o densiynau'r cyfnod yn arbennig felly gan fod gwraig y rheithor, sef Siân Prys o Lanfair Dyffryn Clwyd yn wyres i'r Barwn Lewis Owen a lofruddiwyd 12 Hydref 1555 yn y fan a elwir Llidiart y Barwn hyd heddiw. Mae mwy na digon o hanes a chyffro yn y nofel hon i fod yn destun drama neu ffilm. Gobeithio yn wir y bydd rhywun yn bachu ar y cyfle i adrodd i gynulleidfa newydd hanes pwysig rheithor Mallwyd.

Yn 2020 nid yn unig y bydd yr Eglwys yng Nghymru yn nodi'r Datgysylltiad ond fe fydd cyfle i ddathlu camp John Davies yn adolygu gwaith William Morgan gan roi inni'r Beibl a ddefnyddiwyd yng Nghymru o 1620 tan 1988. Beibl ar gyfer y pulpud oedd un 1620 ond yn 1630 cafwyd y Beibl Bach a werthwyd am 5 swllt. Cafwyd argraffiad arall yn 1678 gan yr SPCK ac yn 1770 ymddangosodd Beibl Peter Williams am y tro cyntaf.

Daliwn ar y cyfle felly yn 2020 i gofio John Davies Mallwyd, gramadegwr, geiriadurwr, adeiladydd pontydd, casglwr llawysgrifau ond yn bennaf oll, ysgolhaig Beiblaidd. Wedi'r cyfan, adnodau Beibl 1620 sydd ar gof y mwyafrif llethol o addolwyr Cymru heddiw. Mae'n wirioneddol haeddu cael ei gofio o'r newydd gennym.





Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

**Mehefin**

2 Môn ac Arfon
9 Glannau Meirion a Dyfi
16 Cynhadledd Eglwys Fethodistaidd Iwerddon
23 Glannau Maelor
30 Y Gynhadledd Fethodistaidd

**Gorffennaf**

7 Y Sul ar ôl y Gynhadledd
14 Llanrhaeadr
21 Ceredigion
28 Dyffryn Conwy

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

# Heb fod yn ddigon seciwlar?

## *gan W. H. Owen*



*Ysgol Sul Ebeneser, Treuddyn, yn dathlu ryw dro yn y 1950au*

Daeth oes Meri Huws, y Comisiynydd Iaith cyntaf, i ben a gwawriodd cyfnod Aled Roberts, Wrecsam yn y "barchus, arswydus swydd". Yn ei sgyrsiau â'r cyfryngau wrth gamu i'w fyd newydd awgrymodd nad y Safonau Iaith bondigrybwyll oedd yn mynd â'i fryd yn gymaint â hybu rhagor ar y Gymraeg fel iaith lafar. Mae am weld y rhai sy'n gyndyn o'i defnyddio yn cael ychwaneg o gyfle i wneud hynny y tu allan i furiau'r ysgol er mwyn iddyn nhw arfer siarad yr iaith gyda'i gilydd.

Fyddai neb yn anghytuno â'i nod. Nid ef yw'r cyntaf i ddweud hyn gan fod eraill wedi dymuno gweld camau fel hyn yn digwydd. A phob tro y clywaf hyn byddaf yn barod i weiddi ar eu traws fod darpariaeth Gymraeg mewn amryw byd o bentrefi a threfi, ac wedi bod ers cenedlaethau lawer. Yr enw arno yw capel neu eglwys, mannau a fu'n gynhaliaeth i'r Gymraeg ac a'i cadwodd hi cystal ar hyd y blynyddoedd.

Mae'r rhai hŷn yn ein plith yn gwybod pa mor ddylanwadol oedd y sefydliadau hyn i gynnal yr iaith er nad dyna oedd eu pwrpas. Yno roedd yr hen a'r ifanc yn medru cymysgu â'i gilydd ac ychydig oedd yn gorfod poeni am safonau iaith – yr iaith lafar yn arbennig – oherwydd mai yn y capeli a'r eglwysi yr oedd graen ar y dweud a gafael ar idiomau a theithi'r Gymraeg.

Wrth edrych ar lun sydd o fy mlaen o Ysgol Sul mewn capel yn un o bentrefi bychan Cymru ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf mae dros gant o blant ac oedolion o bob oed. Mae rhai yma sydd o gartrefi Saesneg ond Cymraeg oedd iaith y sgwrsio bob amser yn y cyfnod hwnnw, yn y capel ac ar y stryd. Yr adnodd cymdeithasol hwn fu'n rhannol gyfrifol am osod y safonau.

Clywaf yr amheuwyr yn dweud yn groch: mae'r oes honno wedi hen fynd ac nid yw'r capeli a'r eglwysi yn denu'r hen na'r ifanc erbyn hyn. Wrth gwrs, mae hynny'n wir ac yn amlwg i bawb, a chapeli yn cau ym mhobman. Ond mae cnewyllyn ar ôl o hyd a rhai yn rhoi pwyslais ar le i'r ifanc gyfarfod.

Rhywsut, rhywfodd, mae angen cynyddu'r ddarpariaeth hon gan wneud defnydd o'r adeiladau at bwrpas yr ifanc. Fydd fawr o gefnogaeth o swyddfa'r Comisiynydd Iaith gan nad yw peth fel hyn yn ddigon seciwlar. Pa ots am hynny, os yw'n sylfaen i gael yr ifanc i siarad Cymraeg gyda'i gilydd.

# Y 'MESSIAH' AR Y STRYD

## *gan Gareth Blainey*

Ces i a'm gwraig Delyth brofiad hyfryd ar benwythnos 13 Ebrill yn Nulyn. Yn ystod ymweliad â'n mab Huw oedd yn gweithio yno ar y pryd cawson ni'r cyfle i fwynhau perfformiad o rannau o oratorio enwog y cyfansoddwr o'r Almaen George Frideric Handel, y 'Messiah'. Doedd y perfformiad hwnnw ddim mewn neuadd ond ar Stryd Fishamble sy'n agos at ganol prifddinas Gweriniaeth Iwerddon. Ar y stryd honno mewn neuadd gyngerdd y cafodd y gwaith ei glywed am y tro cyntaf ar 13 Ebrill 1742. Dydy'r neuadd ddim yno erbyn hyn, felly ar 13 Ebrill bob blwyddyn ers 1992 – 250 o flynyddoedd ar ôl y perfformiad cyntaf – mae cymdeithas gorawl 'Our Lady's Choral Society' yn Nulyn wedi canu rhannau o'r 'Messiah' i gyfeiliant cerddorfa yn yr awyr agored ar Stryd Fishamble. Pan aethon ni yno eleni doedd dim llawer o le i symud ar ôl i gannoedd o bobl dyrru i'r stryd!



Ychydig mwy na thair wythnos a gymerodd Handel i lunio'r gwaith ar ôl derbyn geiriau a ddewiswyd o'r ysgrythurau gan Charles Jennens yng Ngorffennaf 1741. Mewn llythyr at ei ffrind Edward Holdsworth ysgrifennodd Jennens: 'Rydw i'n gobeithio y gwnaiff Handel ddefnyddio ei holl athrylith a'i holl ddawn er mwyn sicrhau fod y cyfansoddiad yn rhagori ar bob un o'i gyfansoddiadau blaenorol oherwydd bod y testun yn rhagori ar bob testun arall. Y testun yw y Meseia.'

Mae hi'n deg dweud fod Handel wedi gwireddu gobeithion Jennens wrth greu cerddoriaeth wych yn cynnwys corws yr 'Haleliwia', 'A Gogoniant Yr Iôr' a 'Bachgen A Aned', ac enwi dim ond rhai o uchafbwyntiau'r oratorio. Bron i dri chan mlynedd yn ddiweddarach roedd hi'n braf gallu gwerthfawrogi 'holl athrylith' a 'holl ddawn' y cyfansoddwr ar y stryd yn Nulyn.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Amy Garstang, merch Llinos a Paul, ar ei dyweddiad ag Alex Russell. Hefyd i Bethan a Rhian, efeilliaid Eirian a'r diweddar Gwynfor Jones, ar ddathlu eu pen-blwydd yn 50 oed. Dymuniadau gorau i chi i gyd.

**GWASANAETHAU'R PASG**
Cafwyd oedfa Gymun undebol arbennig yn Eglwys Preswylfa fore'r Groglith dan arweiniad y Parchedig Roger Roberts gyda'r Parchedig Peter Jennings yn ei gynorthwyo. Yna ar Sul y Pasg cafwyd oedfaon undebol bendithiol iawn yng Nghapel Coffa am 10 y.b. gyda'r Parchedig Gareth Edwards ac am 5 y.h. gyda'r Parchedig Gerwyn Roberts.

**GOHEBYDD.** EIRIAN JONES

### Ebeneser, Treuddyn

**BEDYDD**
Ar ddydd Sul, Mawrth 10fed, cynhaliwyd Gwasanaeth Bedydd yn y capel o dan arweiniad y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ. Bedyddiwyd William David, mab bach Peter a Bethan Watkiss, yng nghwmni ei chwaer Meghan Mair, ei nain Amanda Jackson a llawer o deulu a ffrindiau. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddynt oll.



**Y GROGLITH**
Ar fore Gwener y Groglith fe gynhaliwyd Oedfa Gymun o dan arweiniad y Parchedig Marc Morgan.

**DIOLCH**
Roedd ein Harwerthiant Blynyddol ar ddydd Sadwrn, Mai 4ydd yn Hafan Deg yn llwyddiannus iawn. Diolchwn yn fawr iawn i aelodau'r capel am eu haelioni gyda'r rhoddion tuag at yr holl stondinau. Hefyd, diolch i holl ffrindiau'r capel a'r pentrefwyr am ein cefnogi unwaith eto.

**RALI AR 9 MEHEFIN**
Edrychwn ymlaen at ein Rali flynyddol ar nos Sul, Mehefin 9fed am 6 yr hwyr pan fydd y gwasanaeth yng ngofal Wendy Swan. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

**Y GYMDEITHAS**
Cynhelir ein Cymdeithas ar y nos Fercher gyntaf ym mhob mis o fis Mawrth hyd fis Awst. Mae rhaglen y Gymdeithas wedi bod yn un amrywiol eto eleni, gyda'r Parchg Eirlys Gruffydd Evans yn sgwrsio am y gwahanol anifeiliaid sydd yn y Beibl yng nghyfarfod mis Mawrth; ym mis Ebrill fe wnaeth Mrs Margaret Morgan baratoi cwis ar enwau lleoedd yng Nghymru o'r gogledd i'r de; ac ym mis Mai fe wnaeth Mr Idris Jones sôn am y pethau y mae yn eu trysori gyda dogfennau a lluniau, ynghyd ag ychydig o hanes lleol. Edrychwn ymlaen am weddill y rhaglen pan fydd Mr Kevin Matthias yn annerch y Gymdeithas ar Fehefin 5ed; a Brethyn Cartref fydd gennym ar Orffennaf 3ydd. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni. Ar ddydd Sadwrn, Medi 7fed cynhaliwn ein Te Prynhawn blynyddol yn Hafan Deg am 3 o'r gloch.

**CYFARFOD PREGETHU AR 8 MEDI**
Eleni, y Parchedig Ddr Siôn Aled Owen, Wrecsam, fydd y pregethwr gwadd ar gyfer ein Cyfarfod Pregethu ar nos Sul, Medi 8fed am 6 yr hwyr. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni.

**GOHEBYDD.** GLENYS DAVIES

### Shiloh, Tregarth

**PROFEDIGAETH**
Wedi gwaeledd hir, bu farw un o aelodau Shiloh, sef Valmai Evans, Bryn Cul gynt, gweddw y diweddar Joe Evans a mam Robin ac Ann Catrin. Cafodd ofal arbennig yn y blynyddoedd olaf yng Nghartref Nyrsio Ceris ym Mangor. Cynhaliwyd ei hangladd dan ofal y Parchedigion Gwynfor Williams a Richard Gillion. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

**HENO**
Braf oedd gweld Eirwen Williams ar y teledu yn ddiweddar yn sgwrsio ag Elin Fflur. Llongyfarchiadau, Eirwen. Cafwyd cyfle i weld ar y rhaglen hon y gwaith cerfiedig manwl a diddorol ar lechen fawr o gwmpas y lle tân yn Nhyddyn Dicwm, cartref Eirwen a Wynn. Cip hefyd ar Wynn yn mwynhau'r haul ac yn croesawu Elin Fflur!

Llongyfarchiadau hefyd i un o bobl ifanc y capel sef Gwenno Roberts, a ymddangosodd ar yr un rhaglen o'r Ŵyl Delynau yng Nghaernarfon yn cyfeilio ar y delyn. Da iawn ti, Gwenno. Byddwn yn cael cyfle i wrando arni yn Shiloh yn ystod Gwasanaethau Teulu.

**ABERHENFELEN**
Mae un arall o ieuenctid Shiloh wedi bod yn brysur ers rhai misoedd bellach. Cafodd Ifan Rhys Cooke ei ddewis i chwarae'r gitâr fâs yng nghynhyrchiad Cwmni Theatr yr Urdd, 'Aberhenfelen'. Bydd y cynhyrchiad i'w weld yn Galeri Caernarfon ym mis Gorffennaf ac yna yng Nghaerdydd. Mae Ifan yn dilyn cwrs Technoleg Cerdd yng Ngholeg Menai. Llongyfarchiadau i ti a mwynha'r profiad gwych yma.

**ANRHYDEDD**
Rydym i gyd yn Shiloh wrth ein bodd o glywed y newyddion y bydd Medal Syr T.H. Parry Williams yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn Llanrwst yn cael ei rhoi i Falyri Jenkins, Tal-y-bont ger Aberystwyth. Un o genod Sling ydi Faleri ac mae ei thad, Dennis Griffiths, yn aelod ffyddlon yma yn Shiloh. Llongyfarchiadau Falyri a diolch am yr holl waith rwyt yn ei wneud yn gerddorol a diwylliannol yn Sir Aberteifi.

**DRWS AGORED**
Bob bore Gwener rhwng 10 o'r gloch a hanner dydd mae'r drws yn agored ac mae croeso i bawb ddod am baned, sgwrs a chwmni. Beth am droi i mewn am orig ddifyr?

**OEDFA DEULU SUL Y BLODAU**
Ar Sul y Blodau cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan rai o ieuenctid y capel a'u teuluoedd. Cawsom fendith yng nghwmni Gwenno ac Iestyn, Gwenlli, Nel Mai, Myfi Celyn a Mali Non. Yn ystod y gwasanaeth hwn hefyd fe ganodd Helen Wyn y gân 'Sul y Blodau' yn hyfryd iawn. Cawsom sgwrs amserol gan Rhian Evans-Hill ac mae'n hyfryd cael cyfle i wrando arni bob amser – cawsom y cyfle hwnnw sawl gwaith yn ddiweddar gan ei bod yn dilyn hyfforddiant i fod yn bregethwr lleol. Pob dymuniad da i Rhian gyda'i chwrs a hefyd i Ffion Rowlinson sydd yn dilyn yr un cwrs.

**GOHEBYDD.** GWENDA DAVIES

### Tabernacl, Llanfyllin

**DRWS AGORED**
Yn dilyn tywydd oer, daeth cynulleidfa werthfawrogol i wrando ar Aubrey a Glenys Evans yn disgrifio eu profiadau yn prynu ac addasu hen gapel Wesle Bwlchycibau i'w wneud yn gartref iddynt. Darganfuwyd bod y pren a ddefnyddiwyd i wneud y cwiriau wedi dod o America. Ar hyn o bryd, maent yn clirio'r fynwent, gyda'r bwriad o warchod y cerrig beddau (gan gynnwys carreg fedd un gweinidog Wesle fu farw yn 1862, Y Parch William Batten). Roedd gan amryw yn y gynulleidfa gysylltiad â'r capel. Diolchwyd iddynt gan Rhoswen Charles.

### HANNER CANRIF O WASANAETH

Pleser yw llongyfarch Mr Robin Hughes am dderbyn tystysgrif clod am roi 50 mlynedd o wasanaeth fel blaenor. Cafodd Mr Hughes ei ordeinio yng nghapel Rhiwlas i fod yn flaenor yn Seion, Llansanffraid hanner can mlynedd yn ôl. Yn dilyn hyn, daeth yn flaenor ym Moreia, Llanfyllin hyd nes caewyd y capel. Bellach mae'n un o flaenoriaid y Tabernacl, ac er nad ydyw'n gallu mynychu pob gwasanaeth mae ganddo ddiddordeb mawr yng ngweithgaredd y capel. Cafodd y tystysgrifau eu cyflwyno mewn gwasanaeth yn Llanfair Pwllgwyngyll. Diolch, Robin, am flynyddoedd o ymroddiad i Eglwys Iesu Grist.

### SUL Y PASG

Paratowyd gwasanaeth y Pasg eleni gan Mrs Mair Ellis a chymerwyd rhan gan Gristnogion o bob oed. Thema'r gwasanaeth oedd 'Dwylo Iesu Grist'. Cafwyd eitemau cerddorol unigol gan Eos a Mared a chanwyd y ddeuawd 'Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun' gan Brenda ac Elain. Cafwyd sgwrs am wyrth yr Atgyfodiad gan Mr Tom Ellis. Llywyddwyd yr oedfa gan y Gweinidog gyda Mrs Eldrydd Jones wrth yr organ.

### CROESO I'R BABAN

Ar Ddydd Gwener y Groglith daeth newyddion da i Tom a Mair Ellis, gan iddynt glywed eu bod yn hen daid a nain i or-ŵyr bach newydd. Ganed mab bach i'w hŵyr Bryn a Lisa sydd yn byw ger Pwllheli. Ei enw yw Owain Thomas Ellis. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

### GWELLHAD BUAN

Gwellhad buan yw'n dymuniad i un o'n haelodau, sef Mrs Mary Lewis, Hafod Lon. Cafodd Mary anafiadau difrifol i'w hysgwydd a'i braich yn dilyn codwm yn ei chartref ar fore Llun y Pasg. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati.

### CYDYMDEIMLO

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mr Emrys Jones, Caernarfon, yn ddiweddar. Bu Emrys yn flaenor ffyddlon a diwyd yng nghapel y Tabernacl am flynyddoedd lawer cyn symud i Gaernarfon i fyw. Bu farw ar yr union ddiwrnod yr oedd ef a'i briod Derwena yn dathlu eu priodas Blatinwm (sef 70 mlynedd o fod yn briod). Er y tristwch, mae'n dal i fod yn llawenydd iddynt gael dathlu'r diwrnod yng nghwmni'r teulu. Cydymdeimlwn yn gywir â Derwena a'r plant Geraint ac Alwena ynghyd â'u teuluoedd.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd gyda Mr a Mrs Robin Hughes, wedi i Robin golli brawd yn ddiweddar.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

## *Salem, Rhyd y Foel*

### GŴYL DDEWI

Nos Iau Mawrth 21ain y bu aelodau a chyfeillion y capel yn dathlu dydd ein nawddsant eleni. Y gŵr gwadd oedd Mr Bob Morris, Penygroes. Yn dilyn swper blasus cawsom weld sleidiau i gyd-fynd â sgwrs ddifyr gan Bob am y modd y dethlid gwahanol wyliau yn yr hen ddyddiau.

### LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau calonnog i Cadi Mai Pegg ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Daeth yn gyntaf ar yr unawd ffliwt a hefyd ar waith celf. Dymuniadau gorau i Cadi yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

### EISTEDDFOD GENEDLAETHOL SIR CONWY 2019

Nos Iau Ebrill 11fed yn Salem bu Côr Meibion Llanddulas o dan arweiniad medrus Eirlys Dwyryd yn cadw noson er mwyn codi arian ar ran ardal Rhyd y Foel a Llanddulas tuag at yr Eisteddfod. Dilwyn Price oedd yn arwain y noson yn ei ffordd hwyliog arferol. Daeth dros 90 o'r cyhoedd i gefnogi'r digwyddiad a phawb wedi mwynhau. Gwnaed elw haeddiannol iawn. Yn ogystal bu aelodau pwyllgor y ganolfan yn brysur yn darparu paned a chacen am bris rhesymol wedi'r noson ac fe roddwyd yr arian a gymerwyd yn ogystal â swm ychwanegol tuag at yr Eisteddfod.

### OEDFA DEULUOL

Ar Sul y Blodau eleni cafwyd oedfa deuluol fendithiol iawn o dan arweiniad Mrs Catherine Blythin. Croesawyd pawb i'r oedfa yn Gymraeg ac yn Sbaeneg, gan Gwenno oedd wedi dod adref am ysbaid o Sbaen. Cymerwyd rhan gan Angharad, Tirion a Mali Grug, Rowena, Cadi a Gwil, Ruth, Beth a Steffan, Bethan mam Matthew a Mali Faith. Yr organydd oedd Anna sef mam Mari a Cadi. Roedd 11 o blant yn bresennol a phob un wedi dod â blodau i addurno bwrdd y Cymun. Cafwyd sgwrs bwrpasol gan Catherine ac fe derfynwyd yr oedfa trwy i bawb gydganu "Pwy wnaeth y sêr uwchben". Oedfa gofiadwy iawn ac fe wnaeth y plant yn ogystal â'r oedolion fwynhau wyau Pasg ar ôl y gwasanaeth.

**GOHEBYDD.** SIÂN PRICE



## *Eglwys Unedig Colwyn*

### GWELLHAD BUAN

Drwg gennym gofnodi fod Mrs Dora Jones, sydd yn 102 oed, wedi derbyn triniaeth ar ei chlun yn dilyn codwm cas yn ei chartref. Yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty symudodd i Gartref Gofal Brompton Lodge, Llandrillo yn Rhos. Dymunwn adferiad llwyr a buan iawn i Dora ac i'n cleifion oll.

### YMWELIAD

Ar 14 Ebrill cawsom y pleser o groesawu Mr Iorwerth Roberts i'n plith. Mae Iori yn fab i'r diweddar Barchedig a Mrs John Alun Roberts ac mae wedi cael bywyd hynod o amrywiol a diddorol. Wedi graddio o Brifysgol Bangor aeth i Jamaica i weithio fel athro. Treuliodd lawer o amser yn Uganda lle bu yn helpu i adeiladu tai i blant amddifad. Erbyn hyn mae wedi treulio blynyddoedd lawer yn Oslo lle sefydlodd Gymdeithas Gymraeg lwyddiannus. Roeddem hefyd yn falch iawn o groesawu Tora ei wraig ac Aluna ei chwaer.

### MERCHED METHODISTAIDD

Er gwaethaf y tywydd ar y diwrnod fe wnaethom fwynhau prynhawn difyr a diddorol yn Seilo, Llandudno ar 27 Ebrill pan gynhaliwyd cyfarfod Merched Methodistaidd. Cawsom anerchiad gyda sleidiau gan y Parchedig Anna Jane Evans, Cymorth Cristnogol, ar y pwnc 'Heddwch Nain'. Clywsom am apêl Merched Cymru a Mynwy yn 1924 at Ferched yr Unol Daleithiau i ymdrechu i berswadio Cynghrair y Cenhedloedd i gyfrannu tuag at fyd heb ryfel. Roedd hyn wrth gwrs yn dilyn



# Bywyd Ysbrydol: Trysor Gwerthfawr



## (Mathew 13:44)

### *gan Owen Morris*

Fe ddywed y Beibl: “Fy Mab, os derbynni fy ngeiriau, a thrysori fy ngorchmynion, a gwrando’n astud ar ddoethineb, a rhoi dy feddwl ar ddeall; os gelwi am ddeall, a chodi dy lais am wybodaeth, a chwilio amdani fel am arian, a chloddio amdani fel am drysor - yna cei ddeall ofn yr Arglwydd, a chael gwybodaeth o Dduw.” (Diarhebion 2:1-5 BCN)

Mae’r Beibl yn debyg i drysor yn yr adnodau yma. Yn aml mae trysorau wedi eu cuddio neu o dan glo ac yn aml mae anturiaeth ynghlwm â hwy wrth geisio eu darganfod. Cofiaf fy nhaid, flynyddoedd yn ôl, yn dweud stori am long y ‘Royal Charter’ a suddodd ar arfordir Ynys Môn. Yn ôl pob sôn fe suddodd yn llawn o drysor gwerthfawr. Mae yna lawer o straeon tebyg am drysorau gwerthfawr yn cael eu colli; trysorau môr ladron wedi eu claddu; mwyngloddiau aur wedi eu colli – i gyd wrth gwrs yn borthiant i gannoedd o nofelau a ffilmiau anturiaethus.

**Teyrnas nefoedd yn debyg i drysor**
Fe ddywed yr Iesu: “Y mae teyrnas nefoedd yn debyg i drysor wedi ei guddio mewn maes; pan ddaeth dyn o hyd iddo, fe’i cuddiodd, ac yn ei lawenydd y mae’n mynd ac yn gwerthu’r cwbl sydd ganddo, ac yn prynu’r maes hwnnw.” (Mathew 13:44)

Anodd cael hyd i well darlun i ddisgrifio apêl a gwerth Ei Deyrnas. Daw ei darganfod â llawenydd a hyfrydwch mawr. Mae nid yn unig yn ateb dirgelwch bywyd ond yn addo bywyd tragwyddol hefyd. Mae’r Deyrnas yn perthyn i’r Iesu am ei fod wedi ei phrynu â’i einioes.

Ond beth amdanom ninnau? Dyma eiriau’r Iesu: “Rwy’n dweud wrthych eto, y mae’n haws i gamel fynd trwy grau nodwydd nag i’r dyn cyfoethog fynd i mewn i deyrnas Duw.” (Mathew 19:24). Y cwestiwn amlwg yw: “Pwy felly all gael ei achub?” (Mathew 19:25). Mae’r broblem bron yn amhosib, ond medd yr Iesu: “Gyda dynion y mae hyn yn amhosibl, ond gyda Duw y mae pob peth yn bosibl.” (Mathew 19:26). Mae’n bosib “oherwydd gwelodd eich Tad yn dda roi i chwi’r deyrnas” (Luc 12:32).

**Trysor ein calonnau**
Wedyn, pam gwerthu popeth? Disgrifiad yw hyn o ble y dylai ein calonnau fod i gael mynediad i deyrnas Duw. Os yw ein calonnau yn Nuw, byddwn yn barod i ildio popeth, ein holl fywyd. Ond methu a wnawn, mor aml, oherwydd un peth yw dweud wrth yr Iesu ein bod am ei ddilyn, ei garu ac ymddiried ynddo, a pheth arall yw rhoi iddo Ef reolaeth lwyr dros ein bywydau. Ac eto – “Eiddof fi fyddant,” medd Arglwydd y Lluoedd, “fy eiddo arbennig ar y dydd pan weithredaf; ac arbedaf hwy fel y mae dyn yn arbed ei fab, a’i gwasanaetha.” (Malachi 3:17). Clodforwn ein Harglwydd a rhown iddo ein calonnau.

- Beth yw eich trysorau chwi? Beth yw dyhead eich calon?
- A ydych yn trysori’r Iesu?
- Pa mor anodd yw dilyn yr Iesu trwy ddarllen Mathew?
- Beth yw apêl Teyrnas Nefoedd i chwi?

# Yn y Dwys Ddistawrwydd

### *gan y Parchedig Peter Jennings*

Oes gennym ni ddigon o ddistawrwydd yn ein bywydau? Mae cerddoriaeth yn yr archfarchnad, cerddoriaeth yn y gegin, cerddoriaeth pan fyddwn yn darllen neu astudio. Wrth i aelodau’r Clwb Ieuenctid fynd ar daith gerdded, mae’n bosib iawn y gwelwn ni bawb wedi ei blygio i mewn i ffôn neu ddyfais er mwyn clywed cerddoriaeth! Hyd yn oed mewn oedfa, mae cerddoriaeth i’w chlywed wrth inni wneud ein hoffrwm ac yna, pan gyrhaeddwn uchafbwynt ein gwasanaeth Cymun, bydd cerddoriaeth dawel yn y cefndir wrth inni gymuno. Pa mor aml fyddwn ni’n wirioneddol dawel gerbron Duw?

Ychydig cyn iddo ffoi am ei fywyd, fe welwn y proffwyd Elias ar ben Mynydd Carmel yn pryfocio offeiriaid y duw paganaidd, Baal, am nad oedd eu duw yn eu hateb. Roedd gan Elias ffydd gref, ond efallai nad oedd yn llawn sylweddoli fod gan y Frenhines Jesebel hithau ffydd. Roedd Elias wedi sarhau’r frenhines, y Brenin Ahab...yn ogystal â duw Jesebel. A dyma Elias yn dianc am ei fywyd!

Ymlaen â’r hen broffwyd cadarn, ar ffo rhag dialedd Jesebel, nes gorwedd o dan lwyn banadl lle y galwodd ar Dduw: “Dyma ddigon bellach, O Arglwydd; cymer f’einioes, oherwydd nid wyf fi ddim gwell na’m tadau.” Aeth Elias i gysgu; bu’n ymddiddan ag angel oedd wedi dod â bwyd iddo ar gyfer y daith. Ymlaen ag ef gan olrhain llwybr plant Israel hyd at fynydd y Cyfamod. Dyna lle roedd Duw wedi siarad wyneb yn wyneb â Moses gan roi sicrwydd y byddai’n arwain ei bobl ymlaen am mai hwy oedd y bobl a ddewisodd ac y byddai’n parhau i’w dewis.

Ac yn y mynydd sanctaidd hwn, Horeb / Sinai, y cyfarfu Elias yntau â Duw. Pan siaradodd Duw â Moses, bu tymestl a storm a chreigiau’n hollti. Pan welodd pobl Israel daranau a mellt yr Arglwydd, fe doddodd eu calonnau. Y tro hwn, Elias sydd yn disgwyl...

A bu daeargryn, ond nid oedd Duw yn y ddaeargryn. Bu gwynt cryf nerthol ond nid oedd Duw yn y gwynt. Bu tân, hyd yn oed – ac eto nid oedd Duw yn y tân. Yna ar ôl y tân – ‘llef ddistaw fain’...Yn Hebraeg ‘sŵn distawrwydd braf’. Ar ôl holl sŵn y ddaeargryn, y gwynt a’r tân, dyna ddistawrwydd yn atseinio mor gryf fel y gallech ei dorri â chyllell. Roedd y distawrwydd mor UCHEL fel y bu iddo dorri Elias. “O’r distawrwydd,” meddai Sant Ignatius, “y seiniodd y Gair.”

Roedd Elias bron â chyrraedd pen ei daith. Fe dderbyniodd ei gomisiynau terfynol: “Eneinia

# Mawlgan

## *gan Mair Carrington Roberts*

Fel cenedl, rydym wedi trysori ac edmygu ein hemynwyr, a'r cyfansoddwyr a luniodd donau cerddorol i fynegi'r geiriau. Un o brif nodweddion ein canu cynulleidfaol yw ein hoffter o anwylo'r geiriau a'u cyflwyno'n ystyrlon. Maent yn gyfrwng arbennig i fynegi ein ffydd a'n cred. Bu'r canu yn ein capeli, a hynny mewn pedwar llais, yn destun edmygedd mawr, a ninnau'n ymhyfrydu ynddo. Bellach, mae'r gynulleidfa wedi lleihau a'r canu yn aml yn unsain, heb nodweddion arbennig y gorffennol. Diolch fod rhai eglwysi yn parhau i baratoi ar gyfer y Gymanfa Ganu a chynnal ambell oedfa o fawl.

Penderfynodd Ted Clement-Evans, un o ffyddloniaid Capel Heathfield Road, Lerpwl, gyhoeddi cyfrolau o'r emynau gwerthfawr hyn mewn cyfres arbennig o gryno-ddisgiau. Mae chwe chyfrol eisoes wedi'u cwblhau a'r rheiny wedi eu recordio gan rai o gorau dawnus Cymru a chôr enwog Côr Cymry Lerpwl. Dyma a ddywed ef yn y rhagair i'r gyfrol gyntaf:

'Ers plentyndod rwyf wedi bod yn canu'r emynau yng nghapeli Lerpwl. Fe'm hysgogwyd i gomisiynu'r gyfres hon o 150 o'm hoff emynau a thonau ar ôl mynychu'r Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yn Lerpwl yn 2015 yn ystod Gŵyl y Mimosa. Daeth cynulleidfa o ryw 300 ynghyd – ond ychydig iawn oedd dan 60 oed....ofn y byddai ein hetifeddiaeth unigryw yn mynd yn anghofiedig a'm hysgogodd i ymgymryd â'r fenter hon.'




Mae datganiadau'r corau wedi eu cyfarwyddo yn ofalus gan gwmni Sain a'r cryno-ddisg wedi'i gynnwys o fewn cloriau hardd a gynlluniwyd gan Ruth Myfanwy.

Yn y llyfryn cyhoeddir y geiriau a'r tonau a chawn wybodaeth werthfawr a defnyddiol am yr emynwyr a'r cyfansoddwyr gan Dr Rhidian Griffiths. Mae safon uchel y canu a'r mynegiant cerddorol yn adlewyrchiad teilwng iawn o'n traddodiad cyfoethog.

Cynlluniwyd y gyfres dan benawdau ac mae pob detholiad yn cynnwys 15 o emynau.

Cyfrol 1: Seren Bethle'm – Côr Rhuthun
Cyfrol 2: Mor Fawr Wyt Ti – Côr Cymry Lerpwl
Cyfrol 3: Dros Gymru'n Gwlad - Côr Ger y Ffin
Cyfrol 4: Diolch a Chân – Côr CF1
Cyfrol 5: Mawlgan - Côr Hen Nodiant
Cyfrol 6: Gŵyl y Pasg - Côr ABC Aberystwyth

Wrth gwrs, mae yma amrywiaeth eang yn y datganiadau, ac mae cymeriad gwahanol y corau yn ychwanegu at y mwynhad a'r apêl. Mae'r dehongliadau yn adlewyrchiad diddorol o ddawn yr arweinyddion medrus sydd yma, a'r pwyslais a roir ar y traddodiad llafar yn amrywio hefyd.

Mae naws a didwylledd y canu yn ein cyffwrdd ac yn brofiad dwfn ambell waith. Diolch ichi am y wledd a gefais i wrth wrando a myfyrio, gan ryfeddu at goethder ein treftadaeth a'r fraint o gael ein magu a'n meithrin yn sŵn yr emynau a'r tonau hyn.

Gwelwch fod yma gasgliad gwerthfawr a rhaid llongyfarch pawb a fu ynglŷn â'r fenter. Ein cyfrifoldeb ni yn awr ydy gwneud defnydd o'r cryno-ddisgiau hyn pan ddaw'r cyfle – mewn gwasanaethau o bob math, wrth baratoi cyflwyniadau ar gyfer cymdeithasau ac yn ein cartrefi. Rwy'n sicr y byddant yn gaffaeliad mawr ac yn cyfoethogi ein haddoliad. Diolch yn arbennig i Ted Clement-Evans, y cefnogwr hael am ei weledigaeth a'i weithred ac am ei gymwynas fawr i ni.

Mae'r cyfan wedi'i grisialu yn y gerdd hon gan Aled Lloyd Davies:

Am eiriau wedi'u plethu'n dynn
mewn emyn, rhoddwn foliant.
Am ddawn y bardd, a chrefftwaith hwn,
fe ganwn er D'ogoniant.

Diolchwn am emynwyr lu
fu'n canu am Dy Gariad.
Trwy ddethol gair yn gelfydd iawn,
cydrannu gawn eu profiad.

Ac mewn priodas gair a chân
cawn hafan o'n pryderon.
Fe gawn mewn emyn, fel mewn salm,
eli dry'n falm i'r galon.

Am eiriau beirdd yr awen gu
fu'n canu drwy'r canrifoedd;
am waddol deg i ni a'n plant,
Rhown foliant yn oes oesoedd.



*Llun gan Ally Barrett*

Hasael yn frenin ar Syria, a Jehu yn frenin ar Israel, ac Eliseus yn broffwyd *yn dy le.* Nid ti yw'r unig un sydd ar ôl, mae saith mil sydd heb blygu glin i Baal." Roedd Elias yn ddianghenraid bellach; roedd wedi colli'i blwc. Y distawrwydd oedd diwedd y daith iddo.

Beth sydd gan ddistawrwydd Duw i'w gynnig i chi? Cafodd Eseia ei *alw* ar foment o ddistawrwydd yng nghanol sŵn y Deml. Cafodd Elias ei *ryddhau* mewn moment o ddistawrwydd ar y mynydd. Cafodd yr Iesu *gadarnhad* yn yr ardd... "nid fy ewyllys i ond yr eiddot ti a wneler, O Dad". Beth sydd gan ddistawrwydd Duw i'w gynnig i chi?

trasiedi y Rhyfel Cyntaf. Diolch i Gwenllian a Rhiannon am gymryd rhan yn y cyfarfod dros ein capel ni ac i bawb a fu'n gweithio mor galed tuag at lwyddiant y prynhawn.

### CYFARFODYDD GWEDDI UNDEBOL

Diolch i Ken ac Owen am ein cynrychioli yn y Cyfarfodydd Gweddi ym misoedd Mawrth ac Ebrill.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## Bethel, Prestatyn

### DATHLU'R PASG

Cawsom wasanaeth hyfryd i ddathlu'r Pasg eleni gyda gwahanol aelodau yn arwain y defosiwn. Rhoddodd Geraint anerchiad i'r plant am bwysigrwydd wyau fel symbol o fywyd newydd cyn rhoi wy Pasg i bob plentyn fel anrheg gan yr Ysgol Sul. Ar ddiwedd y gwasanaeth daeth pob








un o'r gynulleidfa i addurno'r groes â blodau ac wedyn rhoddwyd y groes y tu allan i'r Capel yn y Stryd Fawr. Derbyniodd pob un o'r gynulleidfa gerdyn Pasg yr oedd y plant wedi eu gwneud yn yr Ysgol Sul.

### PANED A SGWRS

Croeso cynnes i unrhyw un alw i mewn am baned ar fore dydd Mercher rhwng 10.00 a 11.30.

### Y BOCS BWYD

Diolch o galon i'r holl aelodau sy'n dod â bwyd yn rheolaidd i'w roi yn y bocs bwyd yn y porth. Mae'r bwyd yn cael ei gyfrannu i Fanc Bwyd Prestatyn.

### Y GYMDEITHAS LENYDDOL

Trefnwyd ein cyfarfod ym mis Mawrth ar y cyd gyda Merched y Wawr pan gawsom swper i ddathlu Gŵyl Dewi. Daeth rhai o ddisgyblion Ysgol Glan Clwyd i'n diddori gydag eitemau cerddorol.

### MERCHED METHODISTAIDD

Cynhaliwyd cyfarfod y Gwanwyn yn Llandudno ac aeth nifer ohonom yno. Y siaradwr gwadd oedd y Parchedig Anna Jane Evans sy'n gweithio gyda Chymorth Cristnogol a thestun ei hanerchiad oedd 'Heddwch Nain'. Disgrifiodd y modd yr aeth merched o Gymru yn y 1920au i America gyda deiseb i hyrwyddo heddwch ar draws y byd. Diolch yn fawr i Mrs Rona Morris am drefnu'r bws ac i bawb a ddaeth â chacennau i'r te.

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## Bethel, Rhiwbeina

### GWASANAETHAU

Yn ystod mis Mawrth croesawyd ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, pan weinyddwyd y Cymun Sanctaidd. Cynhaliwyd gwasanaethau hefyd o dan ofal Mrs Eirian Dafydd a Mr Gwyndaf Roberts. Croesawyd y Parchedig Aled Edwards atom ar y Sul cyntaf yn Ebrill. Ar Ebrill 14 ein gweinidog oedd yn arwain y gwasanaeth a gweinyddu'r Cymun Sanctaidd.

### DATHLU GWEINIDOGAETH

Daeth Evan i wasanaethu yn Salem, Treganna a Bethel, Rhiwbeina 20 mlynedd yn ôl. Wrth ddathlu hyn ar 14 Ebrill diddorol oedd darganfod sawl un o'r gynulleidfa oedd yn aelodau ym Methel yn 1999. Diolchodd Evan i'r "hen" aelodau am eu cwmni a'u ffyddlondeb. Cyfeiriodd hefyd at gyfeillion annwyl a gollwyd ar hyd y ffordd. Ond roedd hefyd yn llawenhau bod cynifer o aelodau newydd wedi ymuno yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn hynod falch o'u croesawu'n gynnes. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd cyfle dros baned a darn o deisen arbennig i ddiolch i Evan am ei wasanaethau ysbrydoledig ac am ei gymorth amhrisiadwy ymhob argyfwng. Rhoddwyd gair o ddiolch cynnes ynghyd a charden i Evan gan Wyn Jones ar ran Bethel.

### CROESAWU ARFON

Ar fore Sul 24 Mawrth cawsom y pleser mawr o dderbyn Arfon Roberts yn aelod ym Methel.

### Y GYMDEITHAS

Ar 14 Mai trefnwyd bore goffi yn y capel i godi arian at wahanol elusennau. Diolch i bawb a fynychodd y digwyddiad.

### GWASANAETH SUL Y PASG

Aeth nifer o aelodau Bethel i Salem Treganna i ddathlu Sul y Pasg ac ar ddechrau'r gwasanaeth cafwyd cyfle i fwynhau perfformiad gwych gan gôr ieuenctid o Mizoram, yr India.

### CYDYMDEIMLO

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Carol O'Donnell a gollodd ei mam yn ystod y mis aeth heibio.

**GOHEBYDD.** GWILYM E ROBERTS

## Pendref, Dinbych

### OEDFAON

Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Mawrth ac Ebrill dan ofal Mrs Elizabeth Jones, Mr Royce Warner, Mr Richard Jones a Mr David Barker Jones. Hoffem hefyd ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn y ddau

gyfarfod gweddi a gynhaliwyd pan nad oedd pregethwr ar gael.

Dydd Sul 3ydd o Fawrth cynhaliwyd oedfa undebol Gŵyl Dewi tref Dinbych yn y Capel Mawr. Mae'r traddodiad o gynnal yr oedfa undebol arbennig yma yn Ninbych yn parhau ers blynyddoedd lawer. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan gynrychiolwyr o Gapel Lôn Swan, Y Capel Mawr, Capel y Fron, Eglwys y Santes Fair, Capel Brwcws a Chapel Pendref. Fe'n cynrychiolwyd ni gan Gwyn Williams.

Ar Sul y Blodau buom yn cydaddoli â chyfeillion Ardal Bathafarn mewn oedfa arbennig yng nghapel Bathafarn, Rhuthun. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan ddau o aelodau Pendref sef Geraint Roberts a Gwyn Williams. Ar ôl yr oedfa mwynhawyd paned a sgwrs yng Nghanolfan Awelon.

Cynhaliwyd gwasanaeth Byd Eang y Chwiorydd Capeli Cymraeg Dinbych yn y Capel Mawr ar ddydd Gŵyl Dewi. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth bendithiol yma, ar ran Pendref, gan Ceri Ellis a Margaret Sellers. Darparwyd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y gwasanaeth gan chwiorydd y Capel Mawr.

Ni fu modd cynnal oedfa arferol Gwener y Groglith eleni yn anffodus oherwydd bod ein gweinidog y Parchedig Tudur Rowlands wedi derbyn llawdriniaeth. Dymunwn wellhad buan iddo ac edrychwn ymlaen at gael ei gwmni eto yn fuan.

### CWBLHAU GWAITH

O'r diwedd mae'r gwaith ar y capel ac ati yn dirwyn i ben gyda chwmni arbenigol wrthi'n glanhau'r capel ar ôl yr holl waith. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddefnyddio'r capel yn fuan.

### DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn yn dda i Rhys a Kiya Evans yn dilyn eu priodas yn Wick yr Alban ar Fawrth 30ain. Mae Rhys yn fab i Elfed a Janet Evans, Garej y Ffowndri, Dinbych.

**GOHEBYDD.** MARY JONES

## *Ebeneser, Caernarfon*

### ER COF ANNWYL

Yn frawychus o sydyn yn ei gartref, Tŷ Capel Ebeneser, Caernarfon nos Sul, 17 Mawrth eleni bu farw Joseph Williams yn 83 mlwydd oed. Priod annwyl Nel a thad gofalus David a Geraint, taid a hen daid hoffus iawn a ffrind da i lawer. Bu ef a Nel yn ofalwyr Capel Ebeneser ers yn agos i ddeugain mlynedd a'r ddau yn barod iawn eu cymwynas i bawb bob amser.

I ychwanegu at y tristwch o golli Joe bu eu mab Geraint hefyd farw yn arswydus o sydyn yr un noson a hynny tuag awr o amser ar ôl ei dad, yn 53 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu oll gan weddïo y bydd iddynt dderbyn cymorth cariadus Duw a'i ras yn eu colled a'u hiraeth.

**GOHEBYDD.** Y PARCHG. GWYNFOR WILLIAMS

## *Ardal Bathafarn*

### PROFEDIGAETH

Brawychwyd ni i gyd o glywed am farwolaeth sydyn Dafydd Williams. Colled enfawr i ni yng nghapel ac Ardal Bathafarn. Bu Dafydd yn drysorydd a swyddog diwyd a threfnus tu hwnt am flynyddoedd lawer ac mae'r chwithdod yn fawr iawn o golli cydweithiwr hawddgar a ffrind da. Daeth tyrfa i dalu'r gymwynas olaf iddo ym Mathafarn, yr addoldy yr oedd ganddo gymaint o feddwl ohono, dan arweiniad y Parchedig Stuart Evans yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedig John Owen, gyda Meirion Wyn Jones yn cyfeilio. Ein cydymdeimlad dyfnaf â Lucy, Elin a Simon, Buddug a Wyn a'r teulu.

Cydymdeimlwn hefyd yn ddiffuant â Lowri, Bathafarn, ac Ann, Plas Isaf, y ddwy wedi colli brodyr annwyl; hefyd Margaret Hughes, Abbeyfield, a gollodd chwaer yng nghyfraith yn sydyn, a Rhian Hughes a'r teulu a gollodd fodryb, hefyd Audrey sydd wedi colli gŵr i nith sef Jess Griffiths. Meddyliwn amdanoch i gyd yn eich hiraeth am anwyliaid.



### TRYSORYDD

Rydym yn falch fod Siôn Hughes wedi cytuno i fod yn drysorydd capel Bathafarn. Diolch o galon iddo ac i Lucy am ei pharodrwydd i helpu.

### DATHLU

Llongyfarchiadau calonnog i Helen ac Elgan ar enedigaeth merch sef Beca Nel, chwaer fach i Aled a Tomos. Dymuniadau gorau hefyd i'r ddwy nain, Rhian a Bethan, a Gwyn sydd wedi cael gor-wyres arall. Bendith fo arnoch. Dymuniadau gorau hefyd i Ynyr a Sioned ar eu dyweddïad.

### GWELLHAD BUAN

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Gladwen, Gwyddelwern, a gafodd anffawd i'w garddwrn. Ein cofion ati ac at Llew Jones sydd yn yr ysbyty. Pob dymuniad da hefyd i'r Parchedig Martin Evans-Jones, Ifor Parry, Eva Rogers Jones, Gretta Davies, Olwen Jones, Margaret Hughes a Lorna Wynne. Gobeithio bod y gwanwyn yn gymorth i roi hwb i'r galon. Anfonwn ein cofion gorau hefyd at y Parchedig Gwilym O. Jones.

### OEDFAON BATHAFARN

Erbyn hyn rydym yn gallu defnyddio capel Bathafarn unwaith yn rhagor. Diolch i bawb a fu'n helpu i lanhau'r capel yn dilyn y gwaith a wnaed arno a diolch hefyd i Lys Awelon am gael defnyddio ystafell yno ar gyfer ein gwasanaethau, am rai misoedd. Diolch i'r Chwaer Eluned Williams, y Parchedigion Bernant Hughes, Jennifer Hurd a Glyn Thomas ac i Elizabeth Jones a Delyth Davies am arwain addoliad ym Mathafarn. Hefyd i'r Parchedigion Tudur Rowlands a Gwilym O. Jones a Llinos Mary Jones am eu gwasanaeth yng Ngwyddelwern ac Elizabeth yng Nglyndyfrdwy.

### LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i Gareth Hughes, Corwen, ar dderbyn Tystysgrif a Medal Cymdeithas Amaethyddol Meirion.

### Y GRAWYS A'R PASG

Braf oedd cael cynulliad da i'n cyfarfodydd ym Mathafarn a diolch o galon i'r Parchg Marc Morgan am ei neges bwrpasol i ni ac i Margaret ei briod am ganu'n swynol. Diolch hefyd i Rhian a Rhodri a fu'n brysur yn paratoi, i Meta, Dilys ac Elizabeth am eu cymorth ac i bawb am eu rhoddion.

Ar Sul y Blodau daeth cynulleidfa niferus i'r addoliad fel arfer. Cafwyd gair o groeso gan Elizabeth a defosiwn dan ofal Marian, Elwyn ac Elved. Arweiniwyd y gweithgareddau gan Siôn. Hyfryd a swynol

iawn oedd cyfraniadau graenus William, Osian, Ynyr a Lois, rhai o ieuenctid talentog y fro. Cafwyd cyfraniadau gwefreiddiol gan Gwyn Hafod Elwy a Geraint Roberts. Teimladwy oedd gweld rhai o'n cyfeillion yn mynd â blodau fel offrwm i'r allor. Roeddem yn falch iawn o gael cwmni'r Parchg Jennie Hurd a chlywed neges bwrpasol iawn ganddi. Cyfeiliwyd gan Rhian a diolchwyd gan Elizabeth. Ymlaen wedyn i Ganolfan hwylus Awelon i fwynhau lluniaeth blasus a baratowyd yn ôl yr arfer gan Mairwena gyda chymorth y chwiorydd. Prynhawn bendithiol iawn i'n harwain at yr Wythnos Fawr a'r Pasg.



**MERCHED METHODISTAIDD**
Cawsom brynhawn bendithiol er i Storm Hannah fod yn o egr! Cawsom sgwrs hynod o ddiddorol gan y Parchg Anna Jane Evans o Cymorth Cristnogol. Llawer o ddiolch i chwiorydd Dyffryn Conwy am eu paratoadau a'r te blasus. Hefyd diolch cywir i Rona Morris am drefnu'r bws ac i Manon y trysorydd diwyd. Cawsom funud i gofio'r ddiweddar Megan Roberts, Caernarfon, un a fu mor weithgar – chwith meddwl, ond diolch am yr atgofion tyner amdani.

**GOHEBYDD.** ELIZABETH JONES



# O'r Pen Yma gan Angharad Tomos'

## Athrawes Ysgol Sul

Roedd athrawon Rysgol Sul yn wahanol. Roedd athrawon cyffredin yn reit strict, ond roedd athrawon Ysgol Sul rhyw hanner ffordd rhwng rhieni ac athrawon go iawn. Roeddent yn hynod falch eich bod yn dod i'r Ysgol Sul o gwbl, a fydden nhw byth yn eich ceryddu. Atgofion felly ddaeth i'm cof o glywed fod Mrs Gwyneth Thomas, Penygroes wedi marw.

Daeth Ysgol Sul Horeb, Penygroes i ben flynyddoedd maith yn ôl, ond wedi dod i fyw i Benygroes yng nghanol y 90au, byddwn yn dal i weld Mrs Thomas yn yr oedfa yn Soar lle cefais fy atgoffa o'i llais canu cryf. Yna, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd yn gaeth i'w thŷ, ond byddwn yn galw heibio yn achlysurol efo'r Gwyliedydd.

Roedd yn briod â'r Parch Gwilym Thomas o Fynytho, a fu farw yn ifanc ddechrau'r 70au. Daeth newid mawr i fyd Mrs Thomas a Manon wrth iddynt orfod gadael Trefonnen, i symud i fyw yn is i lawr yn Ffordd Llwyndu, a Mrs Thomas yn cael gwaith yn Siop Paragon. Doedd bywyd ddim yn hawdd. Ond ni chwerwodd wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt, a'i hiechyd yn mynd yn fwy bregus.

Gwraig breifat ydoedd, a byddwn yn dal i ganfod mwy amdani fesul dipyn. Yng Nghroesoswallt y cafodd ei haddysg. Mewn sgwrs ddiweddar, soniais am Mildred Eldridge a fu'n briod ag R.S.Thomas. "Ron i'n ei nabod," meddai Mrs Thomas, "hi oedd ein hathrawes gelf". Gwyddai yn burion beth oedd yn digwydd yn ei milltir sgwâr, a hi roddai wybod i mi yn aml pwy oedd wedi cael plentyn, neu pwy gafodd brofedigaeth. Roedd yn darllen Y Ffynnon yn rheolaidd a Llanw Llŷn, byddai'n gwneud croesair Lleu yn gyson, ond byth yn ei anfon i mewn.

Dirywio yn sydyn wnaeth ei hiechyd, ac wythnos cyn ei marwolaeth, fe'i gwelais yn yr ysbyty. Bu bron i mi fethu ei gweld. "Gwyneth Thomas" ron i wedi holi amdani, 'Ada Gwyneth Thomas' oedd yr enw llawn. Cyfeiriai eraill ati fel 'Mrs Thomas Wesla'; 'Mrs Thomas Rysgol Sul' oedd hi i'n teulu ni.

Dan ba enw bynnag y'i cofir, mae'n golled ddofn i Benygroes. Roedd pawb yma efo'r parch mwyaf ati. Roedd hi'n gymeriad cadarn, ac yn un oedd yn meddu ar urddas. Yn gynnar iawn yn fy mywyd, dysgodd hi a'i gŵr bethau gorau'r ddaear i mi. Prin oedd y plant oedd yn mynychu'r Ysgol Sul Wesleaidd erbyn ein cyfnod ni, ond wnaeth hynny mo'i rhwystro. Cofiaf y cyflwyniadau y byddem yn eu gwneud ar wahanol gymeriadau, ac yn arbennig am Martin Luther King. Dysgais lawer am y Beibl, sawl salm, ac yn Horeb y dysgais yn ifanc i adrodd darnau gan Gwenallt ar fy nghof.

Erbyn y blynyddoedd diweddar, a hithau yn ei nawdegau, roedd fy rhieni wedi mynd, sawl capel wedi cau, sawl cydnabod yn atgof, ond roedd Gwyneth Thomas yn dal yno, yn dal yn gyswllt efo'r gorffennol, ac yn wyneb cyfarwydd mewn byd sy'n mynd yn fwy dieithr. Diolch iddi am ei dyfalbarhad. Cydymdeimlwn â Manon a'r teulu gan ddiolch iddynt am eu gofal mawr.

cartŵn





# Crwydro Llefydd Sanctaidd – Wessex Jamaat



*gan Bet Holmes*

Ychydig cyn y Pasg, es i gyda dros ugain o ffrindiau o Adran Brydeinig y Gymdeithas Ecwmenaidd Ryngwladol i ymweld â'r Wessex Jamaat, canolfan Mwslimiaid Shia ger Fareham yn Hampshire. Nid oedd syniad gyda fi beth i'w ddisgwyl.

Mae'r adeilad, Canolfan Al Mahdi, yn newydd: cafwyd caniatâd i'w adeiladu yn 2009, gyda chefnogaeth Heddlu Hampshire, Cyngor Fareham, yr ysgolion lleol a hyd yn oed Eglwys Gadeiriol Portsmouth. Roedd yr adeilad ei hun yn f'atgoffa o Orendy Margam; yn y gerddi mae coed, perllannau a chloddiau wedi cael eu plannu, llawer o blanhigion eraill yn tyfu, tomenni compost yn twymo, ac anifeiliaid gwyllt yn prifio. Ond mae'n wyrdd mewn ffordd arall: mae paneli haul ar y to i gynhyrchu trydan ac mae'r adeilad yn cael ei gynhesu gan ynni tanddaearol. Mae hyd yn oed pedalau er mwyn i'ch traed gau'r tap pan fyddwch yn golchi'ch dwylo! Ond gwir fwriad y ganolfan yw cynnig lle i Fwslimiaid Shia o Portsmouth, Southampton a Bournemouth ymgynnull i addoli, dysgu a chymdeithasu. Maent yn dod o bedwar ban byd i weithio ac i ymgartrefu yn yr ardal eang hon: roedd pobl o Awstralia ac Afghanistan yn bresennol.

Rhywbeth arall sy'n bwysig i'r gymuned yw estyn allan at grefyddau eraill: yn ddiweddar aeth Sheikh Fazle Abas Datoo i Ysgol Gynradd Sant George yn Portsmouth am ddiwrnod rhyng-grefyddol i drafod ei ffydd gyda chynrychiolwyr Bwdhaidd, Hindŵ ac Iddewig, yr Eglwys Anglicanaidd, a'r Eglwys Uniongred Roegaidd, ac i ateb cwestiynau plant Blwyddyn 5. Rhan o'u hymgyrch i esbonio Islam i bobl eraill oedd ein croesawu ni i fynychu oedfa gweddi'r hwyr; dywedodd Muhammad mai Piler y Ffydd yw Gweddi, ac mae Mwslimiaid yn gweddïo bum gwaith bob dydd. Er mwyn dangos parch roedd rhaid i bob un ohonom dynnu ein sgidiau, a gofynnwyd i'r merched orchuddio ein pennau fel roedd eu menywod nhw'n ei wneud; er hynny oedd hi'n fraint bod yn bresennol. Oedfa fer oedd hi, rhyw ugain munud, gyda'r dynion a'r merched yn wynebu Mecca ar eu pengliniau a hefyd ar eu hyd, yn cydadrodd moliant i Dduw.

Ar ôl yr oedfa, cawsom ni a hefyd ficer y plwyf gyfle i rannu bwyd a siarad gyda'n ffrindiau newydd. Achos ffrindiau i ni oedden nhw: yn groesawgar ac yn agored, yn fodlon ateb unrhyw gwestiwn ac esbonio'r ffordd mae eu ffydd ddofn yn effeithio ar bopeth maent yn ei wneud, y ffordd maent yn rhoi i elusennau ac yn helpu'r tlawd yno yn ardal Wessex ond hefyd ledled y byd. Roedd eu cariad at Dduw ac at gyd-ddyn yn disgleirio yn eu hwynebau. "Dewch eto!" meddai Sheikh Fazle.

Beth yw ymateb ein darllenwyr i hyn oll? Ac a fyddai ein capeli ni mor groesawgar tuag at ymwelwyr o ffydd a diwylliant estron, tybed?

Pwy ŵyr werth aberth ddi-baid - y rhai mân
sy'n rhoi mwy na'u dyrnaid
Rhoi rhagor na'u blaenoriaid
A rhoi o hyd fwy na'r rhaid.

*Gwynfor ab Ifor*



# Dyma sylfaen holl obeithion euog fyd



"Yr hyn sy'n dod allan o rywun, dyna sy'n ei halogi. Oherwydd o'r tu mewn, o galon dynion, y daw allan feddyliau drwg, puteinio, lladrata, llofruddio, godinebu, trachwantu, anfadwaith, twyll, anlladrwydd, cenfigen, cabledd, balchder, ynfydrwydd; o'r tu mewn y mae'r holl ddrygau hyn yn dod ac yn halogi rhywun." (Marc 7:20-23 BCND)

Os yw'r holl ddrygioni yma yn llechu o'n mewn, yn ein calonnau, fel y dywed yr Iesu, a oes gobaith am degwch a byd heddychlon? Cyn bo hir fe glywn unwaith eto yr Archdderwydd yn gofyn ym mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol: 'A oes heddwch?' Gwaetha'r modd, 'nac oes' yw'r ateb gonest pan ystyriwn gyflwr ein byd. Ac a all neb ohonom mewn gwirionedd fod yn rhydd rhag 'meddyliau drwg...yr holl ddrygau hyn'?

Aeth y diweddar Owain Owain i'r afael â'r cwestiwn mewn ffordd ddeifiol iawn yn y penillion isod (gydag ymddiheuriad wrth gwrs i Eifion Wyn).

Efengyl tangnefedd, O! rhed dros y byd
(Ond nid, dalia sylw, i'r gwledydd i gyd);
Na foed neb yn credu fod cariad y groes
Bob amser yn addas i bawb ym mhob oes.

Efengyl tangnefedd, dos rhagot yn awr
O'n cwmni gohiriwyd y wawr!
A chofia, byth-bythoedd, fod dial a phoen
A chariad at ryfel ynghudd dan ein croen.

Na foed i ni ein twyllo ein hunain. Ar yr un pryd, gwyddom fod inni obaith. Er mwyn gweithio tuag at well byd, rhaid inni goleddu'r math o obaith a fynegwyd gan Martin Luther King pan ddywedodd: "Rwy'n gwrthod derbyn y farn fod y ddynoliaeth wedi ei chyfyngu'n gwbl drychinebus i nos ddi-sêr hiliaeth a rhyfel, fel na all gwawr heddwch a brawdoliaeth fyth dorri. Rwy'n credu mai gwirionedd di-arf a chariad diamod fydd â'r gair olaf."

Yn aberth Crist y mae'r fuddugoliaeth. Yng ngeiriau Gwenallt, fe gawn "o dan y diferion gwaed a dŵr gusanu Ei fuddugoliaethus draed, heb feiddio edrych gan euogrwydd ar santeiddrwydd ofnadwy ei wyneb." **Ff.R.**

# Blodau

## *gan y Parchedig J. Bryn Jones*

Dwi wrth fy modd â blodau o bob lliw a llun, nid yn unig oherwydd eu hamrywiaeth o ran ffurf ac arogl, ond hefyd oherwydd eu rôl a'u pwrpas hanfodol i'r amgylchedd a byd natur. Mae'n hollbwysig cofio rôl y wenynen fach yn ein bywydau ninnau....a diolch i'r blodau am sicrhau bod modd iddynt gyflawni hynny.

Mae blodau a rhai planhigion tŷ yn un o'r ffyrdd gorau i godi calon, yn enwedig ar adegau pan fydd pethau yn anodd i ni. Dyna paham y gwelir blodau mewn ysbytai a chartrefi'r henoed, ac yn gysur mewn adegau o golled.

Daeth pecyn o flodau drwy'r post yn ddiweddar i fy merch Angharad a'i phriod Meic, ac arno'r geiriau 'A bunch of blooms for a happy planet'. Hynny yw, does dim yn niweidiol mewn blodau. I'r gwrthwyneb, fel y dywedais, mae blodau yn un o'r ffyrdd gorau i godi calon drom; nid yn unig oherwydd eu lliwiau amryliw ond hefyd eu harogl bendigedig...tonig i'r llygaid a'r enaid.

Dewisodd y botanegydd Dr Goronwy Wynne ymchwilio i'r gwahanol flodau yn Sir y Fflint ar gyfer ei Ddoethuriaeth, a chael y fraint gyda'i gyfrol 'Blodau Cymru' o ennill Llyfr Gorau'r Flwyddyn yn 2018. Nid ar chwarae bach y mae gwneud hynny!

Trown i'r Beibl, a gwelir yno sawl cyfeiriad at flodau yn yr Hen Destament a'r Newydd; oddi yno y cafodd William Williams Pantycelyn, y Pêr Ganiedydd, ei ysbrydoliaeth. Yn un o'i emynau mwyaf poblogaidd ac ysbrydoledig mae'r Pêr Ganiedydd yn sôn am Iesu fel Rhosyn Saron (Caneuon Ffydd 320). Dyma un o'r blodau mwyaf prydferth ac adnabyddus, ac fe genir amdano mewn tai tafarn a gemau rygbi a phêl-droed, yn ogystal â'r mannau mwy traddodiadol megis capeli ac eglwysi. Yn ystod ymweliad diweddar â Chadeirlan Bangor, sylwais ar y Rhosyn Saron yn yr ardd fechan gerllaw.

Meddyliais ei bod yn werth sôn am flodau prin sy'n cael eu gwarchod (rhag cwningod yn bennaf) ar y Gogarth ger Llandudno. Enw'r blodyn yw Cotoneaster (Creigafal) Gwyllt neu Cotoneaster (Creigafal) y Gogarth, ac nid yw'n tyfu yn unman arall yn y byd heblaw ar y Gogarth. Blodyn rhyfeddol arall sydd hefyd yn cael ei ddiogelu yw Clychau'r Gog; mae'n debyg bod y blodyn hardd hwn yn cyfleu cariad hir-oes.

Diolch i'n Creawdwr am gyfoethogi'n bywydau ni ac am ein bendithio â harddwch bytholwyrdd blodau a byd natur.



*Creigafal y Gogarth*

# Y Samariad Trugarog
## (Luc 10:25-37)

### *gan Mari Owen, Pontarddulais*

Wyddech chi fod y fath beth â **Diwrnod Cenedlaethol y Samariad Trugarog**? Ar Fawrth 13eg y mae'r diwrnod hwn a'i neges yw y dylai pawb gyflawni gweithredoedd caredig i helpu'r rhai sydd mewn angen, yn enwedig dieithriaid. Cafodd y diwrnod ei sefydlu i gofio am Catherine Genovese a lofruddiwyd yn Efrog Newydd ar 13eg o Fawrth 1964. Petai rhyw Samariad wedi ei helpu, efallai y byddai Catherine yn dal yn fyw heddiw.

Dwi'n cofio Wncwl Harry ers talwm yn ein dysgu yn yr Ysgol Sul mai dameg yw stori gyffredin ac iddi ystyr arbennig. Mae neges i bob dameg. Mae'r neges yn y ddameg hon am y Samariad Trugarog wrth gwrs yn berthnasol i bawb, beth bynnag fo'n hoed a'n gallu, ein lliw neu'n cred neu'n hiaith. Pam tybed? Oherwydd mai stori am **berthynas** ydyw, sy'n gofyn cwestiynau pwysig ac yn ein procio i'n holi ein hunain:




*Eicon y Samariad Trugarog gan Giovanni Paolo Bardini yn Eglwys Sant Pedr, Bologna.*

- Pa mor bwysig yw helpu ein gilydd?
- Pwy fyddaf fi'n ei helpu?
- Pwy yw fy nghymydog?

Dywedodd Iesu'r stori er mwyn ateb cwestiwn gan arbenigwr yn y gyfraith, a ofynnodd iddo sut y byddai e'n gallu cael bywyd tragwyddol. Roedd e'n gwestiwn da, cwestiwn pwysig, ond roedd ei gymhelliad dros ofyn y cwestiwn yn anghywir, am mai ceisio profi Iesu yr oedd. I gael ateb, cyfeiriodd Iesu ef at y Gyfraith yr oedd yn hyddysg ynddi. Yna, o sylweddoli efallai fod ei fethiant i gadw'r Gyfraith ar fin dod yn amlwg, gofynnodd y cyfreithiwr gwestiwn arall sef 'Pwy yw fy nghymydog?' Trodd Iesu ddadl gyfreithiol am ddiffiniad geiriau yn fater pwysicach, sef perthynas, gan adrodd dameg y Samariad Trugarog.

Mae'r ddameg yn troi o amgylch nifer o gymeriadau, sef y dyn druan a ddioddefodd ymosodiad ynghyd â'r cymeriadau eraill a'u hagweddau amrywiol tuag at y truan. Wrth i ni ystyried y stori, gallem ni ofyn i ni'n hunain p'un o'r cymeriadau sydd fwyaf tebyg i ni. Mae siŵr o fod yn wir ein bod, rywdro neu'i gilydd, wedi bod yn debyg i bob un ohonyn nhw, hyd yn oed y dioddefwr!

Cawn ateb clir i'r cwestiwn 'Pwy yw fy nghymydog?' Yr ateb ydy unrhyw un sy'n ymateb yn dosturiol i'r un sydd angen help, a'r gorchymyn ydy 'Ewch a gwnewch chi'r un peth'. Efallai mai'r cwestiwn y dylen ei ofyn i ni ein hunain ydy 'Ydw i'n gymydog?' neu 'Pa fath o gymydog ydw i?' i'r rhai hynny sydd mewn angen. Bob dydd, mae'n rhaid i ni i gyd benderfynu sut rydyn ni'n mynd i ymateb i gyfleoedd i fod yn 'Samariad Trugarog', er efallai ddim ar yr un raddfa â'r ddameg.

Mae angen i ni gymhwyso'r ddameg i'n bywydau ni yn awr, gan edrych ar yr angen sydd o'n cwmpas, yng Nghymru a thu hwnt. Mae angen inni ddeall sefyllfa pobl pan fyddan nhw mewn angen a chofio nad arnyn nhw y mae'r bai eu bod yn wynebu anawsterau, fel rheol. Does neb ohonom yn cael dewis ble y caiff ei eni ac mae ein hamgylchiadau ar adegau y tu hwnt i'n rheolaeth. Dro arall, wrth gwrs, bydd pobl yn gwneud dewisiadau annoeth: yn sicr, ar yr adegau hynny, bydd arnynt angen cymydog.

Pan welwn yr holl luniau o anghenion y byd ar y teledu ac yn y cyfryngau, bydd maint y broblem yn ein dychryn, gan wneud inni deimlo nad oes dim y gallwn ei wneud. Mae'n tynnu'r min oddi ar ein cyfrifoldeb, fel na wnawn ddim byd weithiau heblaw gwthio'r broblem o'r neilltu drwy ddiffodd y teledu.

Gochelwn rhag ymdebygu i'r offeiriad a'r Lefiad yn y ddameg. Fel Cristnogion, tybed ydyn ni mor brysur yn trafod problemau cymdeithasol a beth sydd angen i ni ei wneud, fel ein bod mewn gwirionedd yn 'mynd o'r tu arall heibio' gan adael i bobl nad ydynt yn Gristnogion ddangos y tosturi rydyn ni'n ei broffesu?

Gadewch inni adael i'r cwestiwn 'pwy oedd yn gymydog?' a'r ateb 'yr un a ddangosodd drugaredd' ein herio ni o'r newydd ynglŷn â'n dyletswyddau tuag at y rhai mewn angen, pwy bynnag ydyn nhw a ble bynnag y bônt. Gadewch inni gael ein herio i roi heibio pob rhagfarn. Mae helpu eraill yn ganolog i ffordd Iesu Grist.

# TUDALEN Y PLANT

# Y Drindod Sanctaidd

Wedi iddo atgyfodi o farw'n fyw, dywedodd Iesu Grist wrth ei ddilynwyr am fynd i ddweud wrth bobl ym mhob gwlad ei fod yn eu caru. Dywedodd wrthynt am fedyddio pawb oedd am fod yn ddilynwyr iddo, yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. (Mathew 28:19).

Os ydych wedi bod mewn bedydd, byddwch wedi gweld baban, neu rywun mewn oed, yn cael ei fedyddio yn enw Duw sydd yn dri person, y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Mae Duw yn dri-yn-un – y "Drindod Sanctaidd" yw'r enw ar hyn. Mae yn gariad perffaith ac yn caru'n berffaith bopeth y mae wedi ei greu.

Dyma lun enwog o'r Drindod Sanctaidd y gallwch ei liwio.

